OFFENDER MANAGEMENT INSPECTION

Datganiad i'r wasg

Ffôn: Ymholiadau'r Cyfryngau: 020 7210 8643 Ymholiadau eraill: 020 7035 2202
Arolygiaeth Prawf EM• Ail Lawr• Ashley House • 2 Monck Street • Llundain • SW1P 2BQ
Ffôn: 020 7035 2202 • Ffacs: 020 7035 2237
E-bost: HMIP.enquiries@homeoffice.gsi.gov.uk • http://inspectorates.justice.gov.uk/hmiprobation/

Arolygiad annibynnol ar waith y gwasanaeth prawf a throseddwyr ifainc

EMBARGO TAN 00.01 09 Medi 2008

ARDAL PRAWF GOGLEDD CYMRU – CYHOEDDI ADRODDIAD AROLYGU RHEOLI TROSEDDWYR

Mae adroddiad a gyhoeddir heddiw gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yn dangos bod gan ardal Gogledd Cymru rai cryfderau, ond bod lle i wella mewn agweddau pwysig ar ei gwaith.

Dywedodd Andrew Bridges, Prif Arolygydd Prawf EM:

"Yng Ngogledd Cymru gwelsom arferion a oedd â sylfeini cadarn, er enghraifft, gwaith rheoli Risg o Niwed a gwarchod y cyhoedd. Roedd gwaith caled wedi'i wneud i sicrhau bod yr elfennau sylfaenol yn iawn, ac roedd dedfrydwyr a dioddefwyr - dau grŵp defnyddwyr allweddol - yn gadarnhaol dros ben. Roedd staff yn ymroddedig ac roedd ansawdd ac amlder eu goruchwylio a'u gwerthuso yn dda. Fodd bynnag, nid oedd pob aelod o staff yn gweithio at safon uchel a gwelsom bocedi siomedig o arferion gwael mewn rhai o'r achosion a arolygwyd gennym. Mae gan Ardal Prawf Gogledd Cymru enw da ymysg ei phartneriaid o fudiadau statudol a gwirfoddol ac mae wedi llwyddo i gael canlyniadau da. Yr hyn sy'n rhwystredig, serch hynny, mewn nifer o faterion strategol yw ein bod yn teimlo nad ydynt wedi dod mor bell ag y gallent i sicrhau bod rhai darnau allweddol o waith wedi'u hymgorffori. Gwelsom felly fod angen mwy o gysondeb ar draws yr ardal o ran sicrhau arferion o safon uchel yn rheolaidd trwy gyfeiriad ac arweinyddiaeth glir gan reolwyr a chan y bwrdd".

Dyma brif ganfyddiadau'r adroddiad:

- Roedd safon adroddiadau i'r llys ar y cyfan yn dda ond nid oedd tystiolaeth glir bob amser ar gyfer y broses i benderfynu pa fath o adroddiad oedd fwyaf priodol.
- Roedd angen datblygu mwy ar gynllunio dedfrydau; nid oedd digon o ffocws ar ganlyniad yn yr amcanion ac nid oeddent bob amser yn seiliedig ar yr angen a aseswyd.
- Roedd angen gwella agweddau ar *asesu* Risg o Niwed ym mhob achos: roedd tystiolaeth bod mwy o sylw'n cael ei roi i *reoli'r* Risg o Niwed yn yr achosion hynny yr aseswyd bod Risg o Niwed i eraill yn uchel neu'n uchel iawn.
- Roedd enghreifftiau cadarnhaol o ddarpariaeth i ddiwallu anghenion y troseddwyr o ran addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Roedd angen gweithio ar yr anghysondebau yn y prosesau sgrinio ynghyd â sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu defnyddio i'r eithaf lle pennwyd bod anghenion dysgu.
- Roedd gan yr ardal amrywiaeth o ymyriadau, rhai wedi'u hachredu a rhai heb eu hachredu, a oedd yn cefnogi canlyniadau rheoli troseddwyr. Roedd sicrhau bod rhaglenni ar gael yn her arbennig ac ystyried daearyddiaeth yr ardal, ac roedd y galw mawr am rai rhaglenni'n golygu amseroedd aros hir. Gwelwyd mai cam cadarnhaol oedd buddsoddi mewn staff allanol i hwyluso rhai o'r ymyriadau hyn a sicrhau cymaint o ddarpariaeth ag y bo modd.
- Roedd gorfodi gorchmynion a thrwyddedau'n dda iawn, ac roedd camau tor-amod yn cael eu cymryd yn ddi-oed ac yn briodol yn y rhan fwyaf o'r achosion perthnasol.

- Roedd safon y gwaith gyda Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr i gefnogi a hysbysu dioddefwyr troseddau difrifol yn dda. Yn ôl yr adborth a gafwyd gan ddioddefwyr, cafwyd barn gadarnhaol ar y cyfan am y gwaith yr oedd yr ardal wedi'i wneud i hyrwyddo eu diogelwch.
- Roedd angen canolbwyntio mwy ar adolygu a gwerthuso'n gyffredinol, gyda mwy o bwyslais ar ddangos canlyniadau'r gwaith gyda throseddwyr.
- Roedd proses cynllunio busnes y bwrdd yn gydlynus ac wedi'i rheoli'n dda. Roeddent yn uchel eu parch ymysg asiantaethau partner am eu hagwedd gydweithredol at weithio mewn partneriaeth. Un o brif flaenoriaethau'r ardal oedd ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a gwelwyd tystiolaeth o hyn mewn amrywiol gynlluniau yr oedd yr ardal wedi'u sefydlu neu'n eu cefnogi'n frwd.
- Roedd angen sicrhau bod gwasanaethau a gomisiynwyd yn cael eu rheoli trwy strwythur cydlynol a bod trefniadau ar waith i fonitro canlyniadau a'r nifer sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

NODIADAU I OLYGYDDION

1. Cynhaliwyd Arolygiad Rheoli Troseddwyr Gogledd Cymru ym mis Ebrill 2008.

2. Dechreuodd y rhaglen Arolygu Rheoli Troseddwyr ym mis Mai 2006. Arolygir pob ardal prawf sy'n rhan o Wasanaeth Prawf Cenedlaethol Cymru a Lloegr dros gylch tair blynedd ac ymwelir ag ardaloedd yn yr un rhanbarth o fewn ychydig fisoedd i'w gilydd er mwyn hwyluso cymharu eu perfformiad. Mae hyn yn golygu bod modd i'r Arolygiaeth adnabod a hyrwyddo gwaith effeithiol gyda throseddwyr a lledaenu gwybodaeth am arferion da.

3. Asesir ardaloedd prawf ar sail i ba raddau y maent wedi bodloni meini prawf yr arolygiad. Mae'r rhain yn mynd i'r afael ag ansawdd yr asesiadau a'r ymyriadau ar gyfer troseddwyr, ac â chanlyniadau cychwynnol yr ymyriadau, o ran ffactorau troseddegol megis cyflogaeth, llety a chamddefnyddio sylweddau, a hefyd o ran unrhyw lwyddiant a gafwyd i leihau'r Risg o Niwed i eraill a'r risg o aildroseddu. Arolygir trefn reoli gyffredinol yr ardal hefyd er mwyn gweld i ba raddau y mae'n cefnogi trefn reoli dda ar gyfer troseddwyr.

4. Un o'r prif elfennau y canolbwyntiwyd arni wrth arolygu Gogledd Cymru oedd sut yr oedd yr ardal yn rheoli sampl cynrychioladol o 109 o achosion a'r rheini'n cynrychioli'r rhan fwyaf o gategorïau o orchmynion a thrwyddedau a oedd wedi dechrau oddeutu chwe mis cyn hynny, ac achosion carcharu a ddedfrydwyd oddeutu 13 mis yn ôl. Roedd hyn yn cynnwys troseddwyr a berai Risg uchel o Niwed a Throseddwyr Mynych a Throseddwyr eraill â Blaenoriaeth.